# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws a R Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Adnoddau Dynol (NH),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd A M Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd R Meirion Jones ddatgan diddordeb personol gan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr, yn dilyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y cyfarfod.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2022 yn gywir.

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid nad oedd yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi derbyn y swydd.

Oherwydd sensitifrwydd y materion i'w trafod penderfynodd y Pwyllgor wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid bod y swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn dal i fod yn wag a bod adroddiad wrthi'n cael ei lunio mewn perthynas â'r opsiynau a'r camau nesaf i'w cymryd mewn perthynas â'r swydd.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y**

**caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 4 APWYNTIO STAFF

### Dirprwy Brif Weithredwr

Adroddodd y Rheolwr AD bod y swydd Dirprwy Brif Weithredwr wedi cael ei hysbysebu'n allanol rhwng 28 Ionawr, 2022 a 21 Chwefror, 2022 yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar 27 Ionawr, 2022. Aeth ymlaen i adrodd bod Swyddogion AD wedi llunio rhestr fer drwy gynnal dadansoddiad annibynnol ac o ganlyniad argymhellir bod y Pwyllgor yn nodi pa ymgeisydd/ymgeiswyr y dylid eu cyfweld.

Argymhellir bod y Pwyllgor Penodiadau'n dilyn y broses ganlynol:-

- Asesiad seicometreg annibynnol i'w gynnal gan seicolegydd cymwys i asesu cymwyseddau ymddygiad yr unigolyn, gan nodi unrhyw risgiau efallai y bydd y Pwyllgor Penodiadau'n dymuno'u hystyried cyn dod i benderfyniad;
- Asesiad senario i brofi lled a dyfnder gwybodaeth yr unigolyn mewn perthynas â'r swydd;
- Cyfweliad proffesiynol gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr, aelod o'r Uwch Dîm Rheoli sydd heb ymgeisio ar gyfer y swydd a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid;
- Asesiad MTQ48 mewn perthynas â chadernid a gwytnwch meddyliol;
  Bydd canlyniadau'r holl brofion a gynhelir cyn y cyfweliad terfynol yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Penodiadau er mwyn llywio eu penderfyniad terfynol.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y Swyddog ar gyfer y rhestr fer a chefnogi'r broses recriwtio a amlinellir uchod.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**